

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant Dogfen Ymgynghori

**Ar y cynnig i ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys
yng Nghymru Dewi Sant o 140 o leoedd i 210
o leoedd i ateb y galw yn y dyfodol am addysg
yr Eglwys yng Nghymru.**



Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill.
Gellir trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 01656 656447 i drefnu hyn.

Contents

Cyflwyniad.....	3
Eglurhad o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon.....	4
Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad	6
Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff – sut y gallwch chi gael gwybod mwy a rhoi eich barn.....	6
Cefndir y Cynnig.....	8
Y Cynnig	9
Derbyn Disgyblion i'r Ysgol.....	9
Pam ydym yn cynnig y newidiadau?	9
Perfformiad cyfredol	11
Yr effaith fwriadedig ar ddeilliannau addysg	14
Effaith y cynnig ar y Gymraeg	20
Effaith y cynnig ar ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig.....	21
Tir ac Adeiladau.....	21
Sut fyddai'r cynnig yn effeithio ar ysgolion eraill?.....	22
Sut fyddai'r cynnig yn effeithio ar y ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?	22
Beth yw manteision y cynnigion hyn?.....	22
Beth yw anfanteision posibl y cynnigion hyn?	23
Cynllun pontio os caiff y cynnigion eu cymeradwyo	23
Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnigion.....	23
Dewisiadau eraill a gafodd eu hystyried.....	23
Cyllid – buddsoddi cyfalaf	23
Cyllid – costau rhedeg	24
Adnoddau Dynol.....	24
Trafnidiaeth.....	24
Trefniadau teithio gan ddysgwyr	24
Asesu'r effaith ar gydraddoldeb.....	25
Ystyried yr effaith ar y gymuned	25
Y Ffordd at benderfyniad	26
Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol.....	26
Dyddiadau allweddol.....	27
Cyfnod ymgynghori.....	28
Hysbysiad statudol.....	28
Penderfynu ynghylch y cynnigion	28
Hysbysu ynghylch y penderfyniad	28
Cwestiynau Cyffredin	29
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	31

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn egluro cynnig y corff llywodraethu i ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 o leoedd i 210 o leoedd o fis Medi 2021.

Mae'r cynnig hwn yn cael ei ystyried dan adran 2.3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae'r adran hon yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol o leiaf 25%. Mae ysgol newydd â 210 o leoedd ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant wedi cael ei chynnwys fel rhan o raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor. Cynigir y byddai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar y safle presennol, gyda'r holl staff a disgyblion yn trosglwyddo i'r adeilad newydd erbyn mis Medi 2021.

Mae ein proses ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Gofynnir i ystod o unigolion a grwpiau am eu barn ynglŷn â'r cynigion hyn.

Cyn bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud, mae angen i'r corff llywodraethu sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau â buddiant wneud eu barn ynglŷn â'r cynigion yn hysbys.

Dan God Trefniadaeth Ysgolion 2018, mae'n hanfodol bod unrhyw adborth yn dod i law erbyn 15 Mawrth 2019 er mwyn cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ni all unrhyw eitemau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwnnw gael eu hystyried. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi'r cyfle i chi ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a fydd yn cael eu hystyried pan fo'r corff llywodraethu'n penderfynu sut i fwrw ymlaen.

Mae'r corff llywodraethu'n ymgynghori â'r grwpiau canlynol:

Staff (sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	Cyngor Cymuned Tregolwyn
Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	Cyngor Cymuned Llandŵ
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol	Cyngor Tref y Bont-faen
Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar Bro Morgannwg
Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol	Cynghorwyr Lleol
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)	Comisiynydd y Gymraeg
Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)	Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos ym Mro Morgannwg
Estyn	Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Undebau Llafur
Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol	Cyfarwyddwyr Addysg – Yr Holl Awdurdodau Cyfagos
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	

Tabl 1 – Rhestr o'r grwpiau i ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses ymgynghori

Eglurhad o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

'Nifer Derbyn' – Rhaid i'r holl ysgolion a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at o leiaf eu nifer derbyn cyhoeddedig. Y nifer derbyn yw nifer y lleoedd disgyblion sydd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn.

'ADY' – Anghenion Dysgu Ychwanegol.

'CACCDC' neu 'CCDC' (Cydwasaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru) - Y Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

'FfCD' – Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yw'r elfen gyntaf o'r cwricwlwm newydd i Gymru sydd ar gael. Ystyr cymhwysedd digidol yw'r set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau sy'n ei gwneud yn bosibl defnyddio technolegau a systemau'n hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol.

'Y Ddeddf Cydraddoldeb' – Mae'r Ddeddf yn ymdrin â phob agwedd ar fywyd ysgol sy'n ymwneud â'r modd y mae ysgol yn trin disgyblion a darpar ddisgyblion, rhieni a gofalywyr, cyflogeion, ac aelodau o'r gymuned. Rhaid i bopeth y mae ysgol yn ei wneud fod yn deg, peidio â gwahaniaethu a pheidio â rhoi unigolion neu grwpiau o bobl dan anfantais. Yn arbennig, rhaid i ysgol beidio â gwahaniaethu yn erbyn disgybl neu ddarpar ddisgybl, peidio ag aflonyddu ar ddisgybl neu ddarpar ddisgybl a pheidio â fictimeiddio disgybl neu ddarpar ddisgybl mewn perthynas â'r canlynol: derbyniadau, y ffordd y mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion, sut y mae'n rhoi mynediad i ddisgyblion at unrhyw fudd, cyfleuster neu wasanaeth, a gwahardd disgybl neu beri unrhyw anfantais arall i ddisgybl.

'Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb' – Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn broses sydd wedi'i bwriadu i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grwpiau gwarchoddedig.

'ELSA' – Ystyr cynorthwywyr cymorth llythrennedd emosiynol yw cynorthwywyr addysgu sydd wedi'u hyfforddi i roi cymorth i blant gyda sgiliau emosiynol a chymdeithasol.

'ADCaDF' – Mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn ceisio rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr, ym mhob cyfnod addysg, am effaith eu dewisiadau ar bobl eraill, yr economi a'r amgylchedd. Nod ADCaDF yw herio dysgwyr i weld sut y maent yn gallu cyfrannu at fywydau pobl eraill.

'CS' – Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gwricwlwm datblygiadol ar gyfer dysgwyr tair i saith oed. Mae'n annog plant i fod yn greadigol, yn ddychmygus a chael hwyl gan wneud dysgu'n fwy effeithiol ar yr un pryd.

'PYADd' – Prydau Ysgol Am Ddim.

'Gwella' – Gwella yw'r corff o fewn yr Eglwys yng Nghymru sy'n arolygu'r broses o arolygu ysgolion yr Eglwys yng Nghymru dan Adran 50. Mae'n adrodd wrth Gyngor Ymgynghorol yr Eglwys yng Nghymru ar Addysg (CWACE), ac yn gweithio gyda'r Gymdeithas Genedlaethol

'TGCh' – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

'JRSO' – Swyddog Iau Diogelwch ar y Ffyrdd

'CA2' – Cyfnod Allweddol 2 yw'r term cyfreithiol ar gyfer y pedair blynedd o addysg mewn ysgolion a gynhelir a elwir yn Flwyddyn 3, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6, pan fo'r disgyblion rhwng 7 ac 11 oed

'ALI' – Awdurdod Lleol sy'n golygu Cyngor Bro Morgannwg.

'Plant sy'n Derbyng Gofal' – Mae hyn yn cyfeirio at ddisgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

'Nifer ar y gofrestr' – nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol.

'GDD' – Trefnir bod y Grant Datblygu Disgyblion ar gael gan Lywodraeth Cymru i wella deilliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, dysgwyr cymwys mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar lle darperir y Cyfnod Sylfaen a phlant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

'CYBLD' (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) – Ym mis Ionawr bob blwyddyn, caiff gwybodaeth wedi'i dilysu ei chasglu gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd a data ynghylch y Gymraeg, cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig ac iaith gyntaf.

'DCaPhLIacADd' – Mae Datblygiad Personol, Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn ymwneud â phlant yn dysgu amdanynt hwy eu hunain, eu perthnasoedd â phlant eraill ac oedolion o fewn y teulu a'r tu hwnt iddo, diwylliant unigryw Cymry a diwyllianau eraill sy'n rhan o'r gymdeithas amrywiol yng Nghymru.

'ABIECh' – Addysg Personol, Iechyd, Economaidd a Chymdeithasol

'GY' (Gweithredu gan yr Ysgol) – Pan fo athro/athrawes dosbarth neu bwnc yn nodi bod gan ddisgybl AAA mae'n darparu ymyraethau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol neu'n wahanol iddynt.

'GY+' (Gweithredu gan yr Ysgol +) – Pan fo athro/athrawes dosbarth neu bwnc a'r Cydlynnydd AAA yn cael cyngor neu gymorth gan arbenigwyr o'r tu allan, fel bod ymyraethau amgen sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir ar gyfer y disgybl trwy Gweithredu gan yr Ysgol neu sy'n wahanol iddynt yn gallu cael eu rhoi ar waith.

'GGY' – grwpiau o ysgolion o CCDC sy'n cydweithio ar faterion gwella ysgol.

'Adran 106' – caiff y cyfraniad Adran 106 ei geisio gan unrhyw un sydd â buddiant mewn adeiladu datblygiad tai, tuag at gostau darparu seilwaith cymunedol a chymdeithasol, darpariaeth addysgol, manau agored / offer chwarae, cludiant neu ofal iechyd ar gyfer y rhai a fydd yn byw yn y cartrefi newydd.

'CAA' – Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

'Disgybl â Datganiad' – Mae gan blentyn Ddatganiad o Angen Addysgol (AAA), a adwaenir fel arall fel Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), os oes gan y plentyn anawsterau dysgu sy'n golygu ei bod yn ofynnol rhoi darpariaeth addysgol arbennig i'r plentyn. Mae anhawster dysgu'n golygu bod y plentyn yn profi anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran neu fod gan y plentyn anabledd sy'n golygu bod angen cyfleusterau addysgol gwahanol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer plant fel rheol.

'Hysbysiad Statudol' – Mae hysbysiad statudol yn golygu mynd ati'n ffurfiol i gyhoeddi cynnig terfynol. Dim ond os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig yn dilyn ystyried yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori y gwneir hyn. Mae hyn yn un o'r gofynion cyfreithiol a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad

Wrth gyflwyno cynigion, mae'n bwysig bod cyrff llywodraethu'n gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a, lle y bo'n bosibl, y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu'r ysgol. Mae'r Cyngor yn credu'n gryf y dylai disgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant gael y cyfle i wneud eu barn am y cynnig hwn yn hysbys.

Bydd gweithdy ymgynghori'n cael ei gynnal gyda'r cyngor ysgol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant i gasglu eu barn am y cynnig. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn y sesiwn hon yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol a fydd yn cael ei ystyried gan y corff llywodraethu.

Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff – sut y gallwch chi gael gwybod mwy a rhoi eich barn

Mae'r corff llywodraethu'n bwriadu cynnal sesiynau galw heibio ar gyfer yr holl randdeiliaid fel rhan o'r broses.

Gwahoddir rhieni/gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion yn yr ysgol a'r gymuned i ddod i'r sesiwn galw heibio lle gallwch ofyn unrhyw gwestiynau am y cynnig.

Byddwn wastad yn gofyn i chi gwblhau ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad gan mai dim ond barn a fynegwyd yn ysgrifenedig y gallwn ei derbyn.

Bydd dyddiad a lleoliad y sesiwn galw heibio'n cael eu harddangos gan yr ysgol trwy wefan yr ysgol.

Rydym hefyd wedi trefnu cyfarfodydd ar gyfer staff yr ysgol.

Mae'r ddogfen hon a gwybodaeth ategol bellach i'w cael ar wefan yr ysgol Chyngor Bro Morgannwg hefyd: www.valeofglamorgan.gov.uk/Ehangu-Ysgol-Gynradd-EG-Dewi-Sant

Mae unrhyw ddiweddariadau i'w cael ar y cyfryngau cymdeithasol trwy ffrwd Twitter yr ysgol hefyd @StDavidsCIW

Mae manylion dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori i'w gweld isod:

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Cyfarfod staff - ysgol	Dydd Iau 7 Chwefror 2019 4pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant
Cyfarfod llywodraethwyr – ysgol	Nos Iau 7 Chwefror 2019 6pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant
Sesiwn galw heibio i rieni a'r gymuned	Dydd Iau 7 Chwefror 2019 8.45am - 10.30am	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant

	2.30pm – 4pm	
Sesiwn Ymgysylltu â Disgyblion	Dydd Iau 14 Chwefror 2019	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant
Sesiwn galw heibio i rieni a'r gymuned	Dydd Mawrth 19 Chwefror 2019 5pm – 7pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant

Tabl 2 – Cyfarfodydd Staff, Llywodraethwyr a Rhieni

Mae Eich Barn Chi'n Bwysig

Bydd y cyfnod ymgynghori'n cael ei gynnal rhwng **28 Ionawr 2019** a **15 Mawrth 2019**. Gallwch ymateb i'n cynigion unrhyw bryd yn ystod y cyfnod hwn. Mae eich barn chi'n bwysig i ni, ac mae nifer o ffyrdd y gallwch ei rhannu gyda ni.

Gallwch wneud y canlynol:

- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn:
<https://www.snapsurveys.com/wh/s.asp?k=154765165305>
- E-bostio eich ymateb i: stdavidsp@valeofglamorgan.gov.uk
- Bod yn bresennol mewn sesiwn galw heibio a siarad gyda ni wyneb yn wyneb. Mae hon yn ffordd dda o allu cael atebion i unrhyw gwestiynau a all fod gennych am y cynigion. Byddwn yn dal i ofyn i chi gwblhau ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan mai dim ond yn ysgrifenedig y gallwn dderbyn eich barn. Gallwch gysylltu â ni ar 01446 656447 hefyd i gael rhagor o wybodaeth am y cynnig.
- Cwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant
Tregolwyn
Y Bont-faen
Bro Morgannwg
CF71 7NL

Bydd yr holl ymatebion a roddir inni'n ysgrifenedig yn cael eu hystyried gan y corff llywodraethu cyn ei fod yn penderfynu cyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y cynigion neu beidio.

Er y bydd ymatebion oddi wrth ymgynghoreion sy'n gwrthwynebu'r cynigion yn cael eu hystyried fel rhan o'r adroddiad ymgynghori, ni fyddant yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Byddai gwrthwynebiad statudol yn rhan o gyfnod yr hysbysiad statudol, os caiff ei gymeradwyo ar y cam nesaf, gan y corff llywodraethu.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu'r hysbysiad yn ystod cam nesaf y broses, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cam hwnnw, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebiadau statudol. Caiff y dyddiadau allweddol hyn eu nodi yn Amserlen y Broses Statudol ar dudalen 27.

Sylwer y dylai'r holl sylwadau a gyflwynir yn ysgrifenedig gynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn y sawl sy'n gwneud y sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **15 Mawrth 2019**. Yn anffodus, ni fydd ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried gan y Cyngor.

Gwybodaeth am yr ysgol

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant wedi'i lleoli ym mhentref gwledig Tregolwyn ym Mro Morgannwg, gan wasanaethu cymunedau Tregolwyn, Llandŵ a Llyswyrny. Yn hanesyddol, bu ysgol yn y fan a'r lle ym Mhentref Tregolwyn ers diwedd y 19eg ganrif. Sefydlwyd adeilad presennol yr ysgol ym 1970 i uno tair ysgol blwyf lai yn un ysgol ddydd gydaddysgol. Mae disgyblion o bentrefi lleol yn defnyddio gwasanaeth bysiau'r ysgol sy'n gweithredu o'r Bont-faen, trwy Dresigin, Llandŵ a Llyswyrny.

Mae'r ysgol yn cynnwys clwstwr o adeiladau un llawr, a hithau wedi cael estyniadau bum gwaith yn yr 20 mlynedd ddiwethaf. Ceir dau gaban dros dro ar wahân, y naill yn cynnwys un ystafell ddosbarth a'r llall yn cynnwys dwy, sydd ill dau mewn cyflwr gwael. Mae'r prif floc yn cynnwys y neuadd, y gegin, toiledau, pedair ystafell ddosbarth fach, ystafell TGCh/llyfrgell fach ac ystafell athrawon.

Mae safle'r ysgol yn un o faint da. Y tu allan, mae gan yr ysgol ardaloedd ar wahân ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, ardaloedd â wynebau caled a meddal artiffisial, cae chwarae mawr, gardd weddi/heddwch dawel ac ardal gadwraeth ddynodedig. Hefyd, mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau cymunedol helaeth gyferbyn yn Neuadd Bentref Tregolwyn, gan gynnwys y man chwarae amldeffnydd a'r cae criced, yn rheolaidd.

Mae'r 158 o ddisgyblion sydd ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Mae 28 o ddisgyblion yn ddisgyblion meithrin rhan-amser sy'n cyfateb i 144 o ddisgyblion cyfwerth ag amser llawn. Mae saith dosbarth ar hyn o bryd: pedwar dosbarth ar wahân yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2; a thri dosbarth oedran cymysg yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'n bosibl hwyluso dosbarth ar wahân ar gyfer pob blwyddyn o Flwyddyn 3 i 6, ond byddai hyn yn golygu trosi'r ystafell TGCh/llyfrgell bresennol a rhan o'r brif neuadd i greu ystafell ddosbarth.

Nod yr ysgol yw "datblygu dysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau; cyfranwyr creadigol mentrus, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith; dinasyddion egwyddorol a gwybodus sy'n rhan o Gymru a'r byd; ac unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas."

Datganiad o genhadaeth yr ysgol yw "bod yn lle arbennig, yn lle diogel, yn lle ar gyfer dysgu, yn lle ar gyfer meithrin ac archwilio". (*Addaswyd o Esgobaeth Llandaf*)

Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn fuddsoddiad strategol hirdymor mewn adeiladau addysgol ledled Cymru. Menter unigryw ar y cyd ydyw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau. Cafodd holl brosiectau Cyngor Bro Morgannwg a gyflawnwyd fel rhan o Fand A Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif eu cwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb. Mae disgwyl i'r Cyngor gael cyllid Band B gan Lywodraeth Cymru trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i adeiladu ysgol newydd yn lle'r ysgol yn Nhregolwyn.

Y Cynnig

Mae'r cynnig yn un i ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 o leoedd i 210 o leoedd o fis Medi 2021.

Mae'r cynnig hwn yn cael ei ystyried dan adran 2.3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae'r adran hon yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol o leiaf 25%. Byddai'r adeilad ysgol â 210 o leoedd, sef y maint isaf er mwyn i ysgol fod yn effeithlon a hefyd yr ysgol leiaf y byddai'r Cyngor yn ei hadeiladu o safbwynt cynaliadwyedd, yn cynnwys digon o le ar gyfer y cynnydd rhagamcanol yn niferoedd y disgyblion o ddatblygiadau tai cyfagos.

Mae ysgol newydd â 210 o leoedd ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant wedi cael ei chynnwys fel rhan o raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor. Cynigir y byddai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar y safle presennol, gyda'r holl staff a disgyblion yn trosglwyddo i'r adeilad newydd erbyn mis Medi 2021.

Er bod trosglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, nid yw'n ddarostyngedig i'r broses statudol gan y byddai'r trosglwyddiad o fewn 1.609344 o gilometrau (1 filltir).

Derbyn Disgyblion i'r Ysgol

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn gwasanaethu Plwyfi Tregolwyn, Llandŵ a Llyswyrny. Fodd bynnag, nid dyma'r unig blwyfi y mae'n eu gwasanaethu, gan fod y Weithred Ymddiriedolaeth yn nodi y gall yr ysgol edrych y tu hwnt i ffiniau'r plwyf wrth dderbyn disgyblion.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn derbyn nifer fawr o ddisgyblion o'r Bont-faen sydd â mynediad at gludiant am ddim ar gyfer dysgwyr. Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yw'r ysgol ffydd agosaf at y datblygiad newydd yn Fferm y Darren.

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yn un o'r ysgolion sy'n bwydo Ysgol Gyfun y Bont-faen.

Ni chynigir unrhyw newidiadau i'r trefniadau derbyn o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Pam ydym yn cynnig y newidiadau?

Datblygiad Tai Newydd

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Bro Morgannwg 2011-2026 yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio lleol ar gyfer Bro Morgannwg ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cyngor ar 28 Mehefin 2017.

Mae nifer o ddatblygiadau tai ar raddfa fawr yn yr arfaeth ar gyfer ardal Bro Morgannwg. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 475 o anheddau ar y tir i'r gogledd a'r gorllewin o Glos y Darren, Y Bont-faen. Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yw'r ysgol ffydd agosaf at y datblygiad hwn.

Mae St David's Meadow, datblygiad tai â 64 annedd ar bwys yr ysgol wedi cael ei gwblhau bellach ac mae'r ysgol yn dal i dderbyn teuluoedd newydd wrth i'r tai gael eu meddiannu.

Caiff nifer rhagamcanol y disgyblion sy'n tarddu o ddatblygiad ei gyfrifo gan ddefnyddio fformwla sy'n deillio o ddata'r cyfrifiad o ddeiliaid tai ym Mro Morgannwg. Mae'r fformwla wedi'i gynnwys yng Nghantlawiau Atodol y Cyngor at ddibenion cynllunio.

Mae'r tabl isod yn dynodi'r niferoedd ar gofrestrau (NAG) ar hyn o bryd ar draws yr holl ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu'r Bont-faen.

Ysgol	Math o Ysgol	ND	Capasiti'r Ysgol	Nifer ar y Gofrestr (NAG) ym mhob grŵp blwyddyn mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r Bont-faen						Cyfanswm NAG	Cyfanswm Lleuedd Gwag	
				Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5			Blwyddyn 6
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	VA	20	140	22	21	17	18	16	19	17	130	10
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr	VA	30	210	27	31	27	29	32	28	28	202	8
Ysgol Gynradd y Bont-faen	EM	30	210	30	31	30	30	30	28	31	210	0
Ysgol Iolo Morgannwg	WM	30	210	20	29	21	24	24	28	27	173	37
Ysgol Gynradd Llangan	EM	15	111	14	20	15	15	15	13	16	108	3
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Niclas	VC	18	126	19	18	18	19	18	18	19	129	-3
Cyfanswm												

Tabl 3 – Nifer ar y Gofrestr ym mhob grŵp blwyddyn yn CYBLD Ion 19

Mae'r tabl uchod yn dynodi bod lleuedd cynradd cyfyngedig ar gael yn y Bont-faen.

Rhagfynegir y bydd datblygiad y Bont-faen yn cynhyrchu tua 48 o ddisgyblion meithrin, 132 o ddisgyblion cynradd a 99 o ddisgyblion uwchradd.

Byddai'r galw am addysg ar gyfer y 132 o blant o oedran cynradd sy'n deillio o'r datblygiad, yn seiliedig ar y galw yn yr ardal ar hyn o bryd, yn golygu bod ar 69 o blant angen addysg yr Eglwys yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau bod Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yn gallu ateb y galw am addysg yr Eglwys yng Nghymru a ragwelir yn y dyfodol, byddai angen i'r capasiti gynyddu.

Adeilad addas i'w ddiben

Mae adeilad Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant wedi cael ei gategoreiddio fel un sydd mewn cyflwr gwael ac sy'n wael o ran addasrwydd. Mae hyn yn golygu bod diffygion pwysig yn yr ysgol a bod hyn yn cael effaith andwyol ar ddulliau addysgu. Ni fyddai'n bosibl adnewyddu ardaloedd addysgu i gyrraedd safonau'r 21ain ganrif yn llawn. Mae'r ysgol yn defnyddio cabanau dros dro ar hyn o bryd i ddarparu digon o le ar gyfer niferoedd y disgyblion ar y gofrestr.

Mae'r ysgol yn cynnwys clwstwr o adeiladau un llawr, a hithau wedi cael estyniadau bum gwaith yn yr 20 mlynedd ddiwethaf. Nid yw'r tri adeilad ffrâm bren a chladin dur ar wahân yn cyrraedd safonau canllawiau dylunio Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer ysgolion cynradd sydd wedi bod yn cael eu defnyddio ar gyfer pob ysgol newydd a gwblhawyd trwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor. Mae'r ysgolion hyn yn cynnwys adeilad un llawr neu ddeulawr cwbl hygyrch sy'n darparu'r holl swyddogaethau addysgol gofynnol mewn un adeilad o fewn tir sy'n diwallu anghenion cyfredol y cwricwlwm o ran darpariaeth awyr agored.

Nid yw'r ddarpariaeth gyfredol yn addas i'w diben o ran y canlynol;

- Mae'r adeiladau dros dro yn aneffeithlon, gan arwain at gostau cynnal a chadw uwch.
- Mae cylchrediad rhwng yr estyniadau a hyd yn oed rhwng y dosbarthiadau yn y prif adeilad yn wael. Mae unrhyw symudiad o amgylch yr ysgol yn amharu ar ddysgu.
- Mae angen i fynediad a chyfleusterau ar gyfer pobl anabl gael eu gwella'n sylweddol.
- Dim manau ymneilltuo digonol ar gyfer ymyraethau a lles disgyblion.
- Hefyd, mae'r ystafelloedd dosbarth o faint anghyfartal sy'n ei gwneud yn anodd diwallu anghenion y cwricwlwm ar gyfer nifer cyfredol y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol neu i ateb y galw cynyddol sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.

Mae cynyddu nifer y lleoedd ysgol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 i 210 yn cynnig model mwy effeithlon a chynaliadwy nag agor ysgol ychwanegol gan yr Eglwys yng Nghymru â 210 o leoedd i wasanaethu'r datblygiad ger Clos y Darren, Y Bont-faen. Mae'r cynnig hefyd yn ymdrin â materion gydag adeiladau presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, megis defnyddio strwythurau dros dro. Byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeilad modern o ansawdd da a fyddai'n gallu bod o gymorth i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys.

Byddai'r cynigion yn sicrhau bod yr adeiladau newydd yn cyrraedd safonau adeiladau modern i leihau costau cylchol ac allyriadau carbon. Byddai'r adeilad newydd yn cyrraedd safon "Rhagorol" BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn cael ei adeiladu fel ei fod yn cael A fel sgôr EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni).

Perfformiad cyfredol

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau'n gadarn, bod y dysgu a'r addysgu o ansawdd da a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda dau sefydliad i fonitro perfformiad ysgolion ac i gefnogi'r broses gwella ysgolion.

Estyn yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Un o gyrff y Goron ydyw, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ei chyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau mewn darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Sefydlwyd Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru (CACCDC) ym mis Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio'r holl ysgolion ym Mro Morgannwg.

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygiad yw adnabod nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion.

Ym mis Medi 2017 cyflwynodd Estyn Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd ar gyfer yr holl ysgolion ledled Cymru. Cafodd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror 2012 dan yr hen feini prawf a gaiff eu hegluro isod. Tan 2017 roedd Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa a oedd yn cynnwys pedair barn:

Barn	Yr hyn y mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Cryfderau'n gorbwysu gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Gwendidau pwysig yn gorbwysu cryfderau Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Tabl 4 – Meini Prawf Arolygu Estyn

Adroddiad Cryno Estyn (Chwefror 2012)

Aseswyd yn yr arolygiad fod perfformiad yr ysgol yn "Ddigonol" a bod rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella'n "Ddigonol". Adroddodd Estyn fel a ganlyn:

Perfformiad cyfredol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae bron pob disgybl yn cael dechrau da wrth ddysgu ac mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd cadarn dros amser;
- mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol; maent yn hapus ac mae llawer yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu; ac
- mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda.

Fodd bynnag:

- nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu eu llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a sgiliau annibynnol yn effeithiol ar draws y cwricwlwm;

- nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u sgiliau llafaredd Cymraeg yn ddigon cyson trwy gydol y diwrnod ysgol;
- nid yw disgyblion mwy galluog yn cael eu herio'n ddigonol; ac
- nid yw ansawdd yr addysgu ar y cyfan yn ddigon da.

Rhagolygon ar gyfer gwella

Mae rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella'n ddigonol oherwydd:

- mae'r pennaeth a secondiwyd yn arweinydd dynamig sydd, mewn cyfnod byr, wedi cyflwyno llawer o fentrau newydd;
- mae hi wedi meithrin ymdeimlad cryf o bwrpas cyffredin drwy'r ysgol i gyd trwy greu gweledigaeth a rennir ac ethos gofalgarg; ac
- mae gan y pennaeth a secondiwyd, yr uwch dîm rheoli a llawer o staff ymrwymiad cryf i godi safonau.

Fodd bynnag:

- nid yw llawer o'r mentrau a strategaethau wedi cael digon o amser i gael effaith lawn ar safonau a'r ddarpariaeth;
- nid yw rôl y corff llywodraethu o ran monitro safonau a'r ddarpariaeth wedi datblygu'n llawn; ac
- mae ansicrwydd ynghylch arweinyddiaeth a rheolaeth hirdymor yn yr ysgol

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 Gwella defnydd disgyblion o lythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a sgiliau annibynnol ar draws y cwricwlwm;

A2 Mynd ati ymhellach i hybu defnydd disgyblion o sgiliau llafaredd Cymraeg yn ystod y diwrnod ysgol;

A3 Lledaenu'r arferion gorau o ran addysgu ac asesu ar draws yr ysgol;

A4 Darparu profiadau dysgu mwy heriol ar gyfer disgyblion mwy galluog;

A5 Mynd ati ymhellach i ddatblygu rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol; ac

A6 Sicrhau sefydlogrwydd arweinyddiaeth hirdymor yn yr ysgol

Roedd yr holl argymhellion wedi cael sylw cyn Ail Ymweliad Estyn (Ebrill 2013), a barnwyd fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da.

Mae'r adroddiad arolygu ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant i'w weld yn: <https://www.estyn.gov.wales/provider/6733367>

ac mae canlyniad yr ymweliad monitro i'w weld yn:

http://docs.wixstatic.com/ugd/0cd98f_0ab4f3a9951c426bbf4bcd5eff4113fb.pdf

Mae arolygiad yr Eglwys yng Nghymru gan Gwella dan Adran 50 i'w weld ar wefan yr ysgol.

http://docs.wixstatic.com/ugd/0cd98f_7a82f462565c46b797e03894cee7d562.pdf

System Llywodraeth Cymru ar gyfer categoreddio ysgolion

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system newydd ar gyfer categoreddio ysgolion; cafodd hon ei diwygio ym mis Medi 2017. Mae'r system categoreddio'n ystyried safonau pob ysgol ochr yn ochr â gallu'r ysgol i wella er mwyn pennu lefel y gefnogaeth y mae ei hangen. Wedyn mae sefydliadau megis CACCCDC a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i adnabod, darparu a/neu froceru unrhyw gefnogaeth y mae ei hangen ar gyfer gwelliant pellach.

Caiff y system categoreddio ysgolion ei disgrifio isod:

Categori	Yr hyn y mae'r categori'n ei olygu
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gadarn ac sy'n gwbl glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella.
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn perfformio'n dda ac sy'n ymwybodol o'r meysydd y mae angen iddi eu gwella.
Oren	Ysgol y mae angen ei gwella ac y mae angen cymorth arni i nodi'r camau y mae angen eu cymryd i wella neu i sicrhau bod newidiadau'n digwydd yn gyflymach.
Coch	Ysgol y mae angen ei gwella fwyaf ac a fydd yn cael cefnogaeth ddwys ar unwaith.

Tabl 5 – Meini Prawf Llywodraeth Cymru

Er mwyn pennu'r categori cefnogaeth a gaiff ei egluro yn y tabl uchod, gosodir ysgolion mewn un o'r pedwar grŵp ar gyfer gallu i ddwyn gwelliant (A-D) gydag A yn golygu'r gallu uchaf i wella. Nid yw'r system ddiwygiedig ar gyfer categoreddio ysgolion a gyflwynwyd ym mis Medi 2017 yn defnyddio gradd safonau.

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant – Categorïau Safonau a Gwella			
Dyddiad Cyhoeddi	Gradd Safonau	Gallu i Wella	Categori ar y Cyfan
Ionawr 2019	Amherthnasol	A	Gwyrdd
Ionawr 2018	Amherthnasol	A	Gwyrdd
Ionawr 2017	Amherthnasol	A	Gwyrdd
Ionawr 2016	2	A	Gwyrdd
Ionawr 2015	2	A	Melyn
Ionawr 2014	2	B	Melyn

Tabl 6 – Categorïau safonau a gwella - Ionawr 2014 – Ionawr 2019

O'r 44 o ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg, mae 24 wedi'u categoreddio'n wyrdd, 18 yn felyn a 2 yn oren.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun categoreddio, gweler canllawiau Llywodraeth Cymru i rieni ynghylch y System Genedlaethol ar gyfer Categoreddio Ysgolion:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-cy.pdf>

Yr effaith fwriadedig ar ddeilliannau addysg

Mae'r cynnig yn un i ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 o leoedd i 210 o leoedd o fis Medi 2021.

Safonau:

- Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad y disgyblion ar gyfer yr holl ddangosyddion yn wella na phriod gyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Yn benodol, mae'r perfformiad yn neilliant 6 yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Ar draws y CS, ar gyfer pob maes dysgu, mae pob disgybl yn gwneud cynnydd sydd o leiaf gystal â'r disgwyl ac mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl.
- Mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer pob dangosydd yn uwch na phriod gyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Yn benodol, mae perfformiad ar gyfer pob un o'r 3 phwnc craidd, ar L5, yn uwch na phriod gyfartaleddau'r awdurdod lleol ac yn sylweddol uwch na phriod gyfartaleddau Cymru. Cyflawnodd 5 disgybl L6 mewn Cymraeg. Mae pob disgybl yn gwneud cynnydd sydd o leiaf gystal â'r disgwyl ar draws CA2 ac mae lleiafrif yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl.
- Cyflawnodd y nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim y lefel ddisgwyliedig neu uwch.
- Mae'r gyfran o'r disgyblion sy'n cyflawni sgôr o 85 ac uwch (85+), yn y profion cenedlaethol, yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru ar gyfer pob un o'r 3 phrawf, ym mron pob grŵp blwyddyn. Yn yr un modd, mae'r gyfran o'r disgyblion sy'n ennill sgôr o 115 ac uwch (115+) yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru ym mron pob grŵp blwyddyn ar gyfer pob un o'r 3 phrawf.
- Cynhaliwyd lefelau presenoldeb uchel am y pedair blynedd ddiwethaf. Mae presenoldeb yn 96.6% ar hyn o bryd, sy'n uwch na'r Awdurdod Lleol, Cymru a CCDC.
- Ar y cyfan, mae ymddygiad yn rhagorol

Byddai'r cynnig hwn yn gwella'r amgylchedd dysgu, gan leihau achosion o amharu ar ddysgu ac yn cael effaith gadarnhaol bellach ar safonau.

Lles ac Agweddau at Ddysgu:

Mae Ysgol Gynradd Dewi Sant yn gwbl ganolog i gymuned y plwyf ac mae lles disgyblion yn ganolog i'r ysgol. Mae hybu lles yn gryfder.

Mae'r ysgol yn hybu iechyd a lles disgyblion yn effeithiol. Caiff llawer o gyfleoedd da eu defnyddio'n dda i sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd ffyrdd iach o fyw. Mae ganddynt fynediad at ystod o offer sy'n eu hannog i wneud ymarfer corff. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae aelodau o staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae gweithdrefnau da i fonitro a chefnogi eu datblygiad cymdeithasol a'u lles personol. Mae system Bydis yr ysgol a gwaith cefnogwyr cymheiriaid yn allweddol i'r llwyddiant o ran disgyblion yn ymgartrefu ac yn deall gorchwylion rheolaidd.

Mae Cymunedau Llais y Disgybl wedi hen ennill eu plwyf ac maent yn gysylltiedig â phrynhawniau Cyfoethogi, fel bod pob plentyn yn gallu ysgwyddo rhai agweddau ar rolau arwain. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llafar mewn sesiynau gan ddangos empathi a dealltwriaeth ardderchog. Mae'r ysgol yn ceisio barn disgyblion trwy'r cyngor ysgol, blychau awgrymiadau a holiaduron. Mae'r ysgol yn cymryd barn disgyblion o ddifrif ac yn gweithredu arni pryd bynnag y bo'n bosibl.

Mae profiadau dysgu, gan gynnwys gwasanaethau, yn hybu datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol. Mae aelodau o staff yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gydweithio a chyd-ddysgu, ac mae'r ysgol yn datblygu sgiliau cymdeithasol disgyblion yn dda. Ceir darpariaeth gyfoethog ar gyfer datblygiad diwylliannol disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan yr awdurdod lleol, i gefnogi disgyblion ag anghenion penodol.

Ceir gweithdrefnau a systemau da i adnabod, cefnogi a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynorthwyr cymorth dysgu'n darparu ymyrraeth effeithiol mewn dosbarthiadau, gyda disgyblion yn cael eu tynnu allan o ddsbarthiadau'n achlysurol i gael cymorth ychwanegol. Mae cynlluniau addysg unigol yn briodol ac yn cael eu gwerthuso a'u diweddar'u rheolaidd, gan ymgynghori â rhieni.

Mae arsylwadau dosbarth yn datgelu bod disgyblion yn cyrraedd yn barod i ddysgu ac i'w gweld yn ymddiddori yn eu tasgau ac yn canolbwyntio'n barhaus. Ceir ychydig o wrthdynciadau ac mae gwaith yn cael ei gwblhau o fewn terfynau amser fel rheol, oni bai y cymerir cyfleoedd dysgu cysylltiedig.

Roedd holiaduron disgyblion a rhieni'n dangos canfyddiadau gwell am ymddygiad ac mae staff yn nodi bod llai o ddigwyddiadau'n cael eu cofnodi yn y logiau. Mae ymwelwyr wastad yn gwneud sylw am y moesau rhagorol a'r ffordd ofalgar, yn llawn parch y mae disgyblion yn trin eraill. Maent yn ystyriol o'i gilydd, yn ogystal ag oedolion anghyfarwydd. Roedd sgorau graddfa 'Arolwg teimlad ac agwedd' Fisher a lles disgyblion CA2 yn cymharu'n dda iawn â disgyblion mewn rhannau eraill o Gymru – uwch na'r cyfartaledd.

Mae'r ysgol wedi cael trydedd baner Platinwm ac mae'n parhau i gyrraedd y safonau fel Ysgol Masnach Deg gan ddangos ymrwymiad staff, disgyblion a rhieni i faes ADCDF.

Byddai'r cynnig hwn yn gwella'r amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion a staff yn sylweddol. Cystal ag ydyw, gallai lles gael ei wella ymhellach trwy greu manau ymneilltuo ar gyfer gofal bugeiliol. Byddai seilwaith TGCh gwell yn cyfrannu at agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Byddai'r newid i ddsbarthiadau ar wahân, yn hytrach na dosbarthiadau â grwpiau blwyddyn cymysg, yn cael ei groesawu gan ddisgyblion a rhieni. Byddai hefyd yn lleihau llwyth gwaith i athrawon sy'n cynllunio gwaith ar gyfer dau grŵp blwyddyn ar hyn o bryd.

Addysgu a Phrofiadau Dysgu:

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac yn gwneud defnydd da o ddysgu dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n dda ar wybodaeth bresennol disgyblion. Mae aelodau o staff yn cynllunio cyfleoedd dysgu'n dda ac yn eu paru'n agos ag anghenion disgyblion.

Mae'r ysgol yn amcanu at sicrhau cysondeb, parhad a dilyniant trwy ennyn ymgysylltiad staff â mentrau ysgol gyfan, rhannu strategaethau addysgeg da a monitro eu heffeithiolrwydd. Mae ystod eang o ddulliau addysgu o ansawdd da'n cael eu rhoi ar waith yn gyson. Mae'r adnodd cynorthwyol arfer da ar gyfer cynllunio'n cael ei ddefnyddio'n dda ac yn sicrhau'n barhaus bod athrawon yn canolbwyntio ar y 4 diben a'r 12 egwyddor addysgegol a nodir yn Dyfodol Llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd arbennig o effeithiol o grwpiau ymneilltuo ar gyfer llythrennedd a mathemateg ac mae hyn yn cael effaith dda ar safonau disgyblion. Hefyd, mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu da trwy ddefnyddio athrawon cerddoriaeth ac addysg gorfforol arbenigol, sydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae'r addysgu'n dda gydag arsylwadau'n barnu bod llawer o wersi'n dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r holl staff yn yr ysgol yn deall gwerth rhannu arfer da, o fewn yr ysgol a chyda'i grŵp gwella ysgolion.

Mae staff yn defnyddio recordiadau fideo o wersi ac arsylwadau gan gymheiriaid yn effeithiol i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o nodweddion gwersi da a rhagorol. Wrth ffurfio'u barn ynglŷn ag ansawdd yr addysgu, mae arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwi ar wersi, cynlluniau athrawon, gwaith disgyblion, a gwybodaeth am gynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn gwirio'u gwerthusiad o ansawdd yr addysgu trwy adolygiadau cymheiriaid a monitro ar y cyd â'r ymgynghorydd her. Mae gweithgareddau cymedroli yn yr ysgol a chan asiantaethau allanol yn cadarnhau bod asesiadau athrawon yn gyson ac yn gywir.

Mae'r athrawon yn parhau i ddatblygu dysgu digidol drwy'r ysgol i gyd. Mae LEGO Mindstorm ac ystod eang o adnoddau cyfryngol wedi gwella'r ddarpariaeth a sgiliau ar gyfer staff a disgyblion.

Mae gweithio ysgol i ysgol yn dal i fod yn flaenoriaeth uchel i'r ysgol. Mae arweinwyr a staff yn chwarae rhan weithredol mewn adolygiadau cymheiriaid gyda'i grŵp gwella ysgolion (GGY), ei chwstwr eglwysig a'i chwstwr o ysgolion sy'n bwydo'r un ysgol uwchradd, sydd wedi helpu ysgolion eraill i wella'u hymarfer. Mae'r ysgol yn ymarferydd arweiniol ar gyfer gwyddoniaeth gan weithio gyda chwstwr o ysgolion i ddatblygu casgliadau adfyfyriol a chymedroli asesiadau ymhellach. Mae'r dystiolaeth yn llyfrau'r disgyblion yn dangos effaith y gwaith hwn ar godi safonau mewn gwyddoniaeth.

Fel ysgol greadigol arweiniol, mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag ysgolion eraill i ddatblygu agweddau creadigol ar y cwricwlwm sy'n ymwneud â'r FfCD. Mae'r mentrau cydweithio hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella sgiliau staff, yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, sydd yn ei dro'n arwain at ddeilliannau gwell i ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn parhau i feithrin perthnasoedd da â rhieni trwy gynnig ystod eang o gyfleoedd i rieni ddod i mewn i'r ysgol gan gynnwys cinio gyda'u plentyn, dysgu ochr yn ochr â'u plentyn a sesiynau gwybodaeth i rieni ar sut y gallant gefnogi dysgu eu plentyn gartref.

Byddai'r ysgol newydd yn arwain at amgylcheddau dysgu'r 21ain Ganrif gan gynnwys seilwaith TGCh Gwell, ardaloedd ymneilltuo cydweithredol, dysgu yn yr awyr agored a chylchrediad effeithiol nad yw'n amharu ar ddysgu. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl sefydlu amgylchedd dysgu ac addysgu er mwyn diwallu anghenion y cwricwlwm newydd yn well.

Byddai'r adeilad newydd arfaethedig yn ei gwneud yn bosibl mynd ati ymhellach i ddatblygu cwricwlwm sy'n llawn profiadau cyfoethog sy'n herio plant, yn codi cyrhaeddiad ac yn datblygu perthnasoedd rhyngpersonol.

Byddai'r newid i ddsbarthiadau ar wahân, yn hytrach na dosbarthiadau â grwpiau blwyddyn cymysg, yn cael ei groesawu gan ddisgyblion a rhieni. Byddai hefyd yn lleihau llwyth gwaith i athrawon sy'n cynllunio gwaith ar gyfer dau grŵp blwyddyn ar hyn o bryd.

Gofal, Cymorth ac Arweiniad:

Mae anghenion yr holl ddisgyblion (gan gynnwys rhai agored i niwed) am ofal, cymorth ac arweiniad yn cael eu diwallu'n fwyfwy, gyda pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau cwricwlaidd helaeth yn cael eu deall a'u dilyn gan yr holl staff.

Datganiad o genhadaeth yr ysgol yw “bod yn lle arbennig, yn lle diogel, yn lle ar gyfer dysgu, yn lle ar gyfer meithrin ac archwilio”. Mae’n amcanu at “ddarparu amgylchedd sy’n ddiogel, yn meithrin ac yn hapus” lle mae’r holl blant yn cael eu hamddiffyn yn llawn. Mae cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau lleol cytunedig a phartneriaeth lawn ag asiantaethau lleol eraill yn sicrhau y cymerir mesurau rhesymol i leihau i’r eithaf risgiau o niwed i les plant a bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i fynd i’r afael ag unrhyw bryderon.

Mae polisïau a gweithdrefnau’n adlewyrchu’r saith nod craidd ar gyfer lles plant yng Nghymru. Mae’r Cydlynedd Diogelu wedi defnyddio offeryn hunanarfarnu Estyn i sicrhau bod trefniadau diogelu’n dilyn canllawiau arfer da.

Mae Pwyllgorau Disgyblion neu swyddi cyfrifol (Uwch Lysgenhadon, Ethos, Eco, Ysgolion Iach, Swyddogion Iau Diogelwch ar y Ffyrdd, Masnach Deg, y Cyngor Ysgol, cefnogwyr cymheiriaid, monitoriaid AG ac Arweinwyr Digidol) yn hynod effeithiol o ran cyfrannu at wella safonau. Mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau’n rheolaidd am fywyd a rôl yr ysgol a’i chymuned. Maent yn allweddol o ran dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut, (diwrnodau ‘jump in’, prynhawniau cyfoethogi, ‘brain builders’). Mae gan yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o grwpiau agored i niwed, rolau ac maent yn chwarae rhan weithredol mewn prosesau penderfynu. Mae tudalennau gwe’n manylu ar yr effaith ac yn dathlu gwobrau a enillwyd.

Mae iechyd a lles yn cael eu hybu trwy wersi, clybiau ar ôl ysgol a thrwy weithgareddau pwyllgorau sy’n cyfrannu at y mentrau Ysgolion Iach ac ActivMarc. Mae arolwg Chwaraeon Cymru yn gadarnhaol, gan awgrymu diddordebau iach; mae disgyblion yn mwynhau byrbrydau iach a mynediad at ddŵr rheolaidd; ac mae rhieni’n cefnogi ysgol ddi-fwg a bocsys bywd iach. Roedd gan y Pwyllgor Ysgolion Iach rôl hanfodol o ran darparu tystiolaeth ar gyfer y Wobr Cam 6.

Fe wnaeth y Cyngor Ysgol roi adborth ar flaenoriaethau gwella ysgol; penderfynu ar y ffocws elusennol; awgrymu syniadau ar gyfer clybiau ar ôl ysgol; gwneud gwelliannau i’r amgylchedd dysgu (toiledau, meinciau picnic a chloeriau), cyfrannu at yr archwiliad o iechyd a diogelwch ar y safle; hyrwyddo wythnosau gwrthfwlio; a sicrhau bod disgyblion yn gwybod codau ymddygiad (gan greu ‘Pupil’s Guide to Good Behaviour’). Fe wnaeth penderfyniadau gan ddisgyblion trwy raglen Llais Disgyblion Cymru UNICEF (Gweithredu’r Hawliau) ac Uwch Lysgenhadon barhau i arwain at fentrau dan arweiniad disgyblion a oedd yn cynnal neu’n gwella safonau. Mae digwyddiadau bwlio a gwahaniaethu’n brin, ond mae bron pob rhiant a disgybl yn teimlo yr ymdrinnir yn deg â hyn yn unol â’r polisïau.

Mae bron pob disgybl yn dangos ymdeimlad cryf o’r hyn sy’n iawn a’r hyn sy’n anghywir. Mae gwerthoedd Cristnogol yn treiddio i bob agwedd ar fywyd yr ysgol ac o ganlyniad ceir bod sgiliau cymdeithasol y mwyafrif o ddisgyblion yn rhagorol. Mae disgyblion yn gallu datrys gwrthdaro ac yn gallu awgrymu sanctiynau addas mewn ymateb i ymddygiad gwael.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar y sgiliau a’r wybodaeth i reoli bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant – a ddangosir yn arbennig yn ystod wythnosau preswyl anturus. Nid yw disgyblion sy’n gymwys i gael PYADd yn cael eu rhoi dan anfantais. Mae partneriaethau gyda busnesau lleol yn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cefnogi’n ariannol, fel bod disgyblion yn gallu cael mynediad llawn at bob agwedd ar weithgareddau allgyrsiol a theithiau. Defnyddir y GDD ar hyn o bryd i gefnogi gweithgareddau llythrennedd a rhifedd cau’r bwlch, GDD Plant sy’n Derbyn Gofal y Clwstwr ar gyfer meddylfryd twf a defnyddir y Grant Gwasanaethau ar gyfer sesiynau ELSA ychwanegol. Mae safonau mewn DCaPhLlacADd ac ABIECh yn uchel. Mae ymwelwyr â’r ysgol neu ddarparwyr mewn lleoliadau teithiau wastad yn gwneud sylwadau am gwrteisi a charedigrwyd y disgyblion.

Mae Dewi Sant yn croesawu disgyblion o gefndiroedd crefyddol ac anghrefyddol. Mae gan bob dosbarth ardal ysbrydolrwyd ac anogir plant i archwilio a gofyn cwestiynau am eu gwerthoedd,

eu daliadau, eu teimpladau a'u hemosiynau hwy eu hunain a rhai eraill. Mae'r ardaloedd ysbrydolrwydd yn yr awyr agored, yr Ardd Gweddi a Heddwch a gweithgareddau Eco stiwardiaeth yn ysgogi parchedig ofn a rhyfeddod. Mae addoli'n archwilio gwerthoedd a daliadau Cristnogol. Anogir disgyblion i berfformio yn ystod sesiynau Addoli fel bod eu doniau'n cael eu rhannu a'u bod yn gweithredu fel ysbrydoliaeth i eraill. Mae'r maes ffyddoedd eraill yn y maes llafur Add Gref yn annog disgyblion i archwilio daliadau a gwerthoedd diwylliannol. Mae plant o gefndiroedd ffydd eraill / cefndiroedd heb ffydd yn rhannu profiadau o'u dathliadau a'u daliadau, gan ddod ag arteffactau ac adnoddau megis eitemau, dillad a bwyd arbennig i mewn o'r cartref.

Defnyddir cefndir diwylliannol y disgyblion i gefnogi'r cwricwlwm. Pan nad oes unrhyw blant o gefndir ethnig yn mynychu'r ysgol, caiff rhaglen dreigl o ystod o wyliau ei threfnu, ei chefnogi ag adnoddau gan gyn-rieni neu ymwelwyr crefyddol/anghrefyddol. Wedyn gall staff roi cyfrifon diledryw o agweddau, gwerthoedd a thraddodiadau diwylliannau amrywiol.

Mae disgyblion yn dechrau dangos eu bod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus, yn barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.

Byddai'r cynnig hwn yn gwella'r amgylchedd dysgu'n sylweddol ac yn cynyddu cyfleusterau i gefnogi lles gan gynnwys manau ymneilltuo ar gyfer gofal bugeiliol a thynnu disgyblion allan o ddsbarthiadau ar gyfer ymyraethau anghenion dysgu ychwanegol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth:

Mae arweinyddiaeth ar bob lefel yn hynod effeithiol ac, o ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da. Mae arweinwyr a staff wedi datblygu gweledigaeth gref ar gyfer yr ysgol, y maent yn ei rhannu'n eang gyda chymuned yr ysgol. Mae ganddynt ffocws clir ar godi safonau ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae arweinwyr yn cynllunio newid yn bwrpasol ac mae'r holl randdeiliaid yn cael eu cynnwys pryd bynnag y bo'n bosibl, gan gynnwys barn rhieni.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'r ysgol yn disgwyl ei gyflawni, ac mae arweinwyr yn effeithiol iawn wrth fonitro cynnydd tuag at dargedau'r ysgol. Mae camau gweithredu, gan gynnwys defnyddio adnoddau, wedi arwain at welliant parhaus mewn deilliannau mewn dangosyddion allweddol ar gyfer bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a grwpiau eraill sy'n agored i niwed. Mae gan yr ysgol hanes cryf iawn o fynd ati'n llwyddiannus i weithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol i wella safonau ac ansawdd y dysgu a'r addysgu. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gwella'i hamgylchedd dysgu, safonau mewn llythrennedd, rhifedd, Cymraeg a gwyddoniaeth.

Mae systemau hunanarfarnu wedi hen ennill eu blwyf, maent yn drylwyr ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae uwch arweinwyr a staff yn defnyddio data ar lefel unigolion, dosbarthiadau a'r ysgol gyfan i osod targedau heriol ar gyfer pob disgybl.

Mae arweinwyr yn monitro cynnydd disgyblion tuag at gyrraedd eu targedau'n effeithiol trwy gyfarfodydd rheolaidd a thrylwyr i drafod cynnydd gydag athrawon dosbarth. Mae dadansoddi gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn dangos bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd sydd o leiaf gystal â'r disgwyl neu'n well na'r disgwyl.

Mae dadansoddiad manylach yn dangos bod bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd sydd o leiaf cystal â'r disgwyl, gyda llawer yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r ysgol yn cadarnhau'r deilliannau hyn gan ddefnyddio mesurau gwerth ychwanegol a roddir gan Ymddiriedolaeth Teulu Fischer (FFT).

O flwyddyn i flwyddyn, ceir cyswllt clir a chryf rhwng hunanarfarnu, cynllunio ar gyfer gwella'r ysgol a'r deilliannau i ddisgyblion.

Mae'r ysgol wedi datblygu systemau da ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig. Mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ac yn effeithiol. Mae systemau rheoli perfformiad trylwyr ar waith sy'n cysylltu'n glir â chodi cyrhaeddiad ac â safonau proffesiynol ar gyfer athrawon. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn cael blaenoriaeth uchel yn yr ysgol i'r holl staff.

Mae gan llywodraethwyr ddealltwriaeth glir am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn o wybodaeth am berfformiad ac asesu i herio a chefnogi arweinwyr yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn dangos dealltwriaeth glir am yr heriau y mae amrywiadau ym meintiau cohortau'n eu hachosi wrth edrych ar dueddiadau dros dair blynedd. Mae llywodraethwyr wedi gwella'u cyfraniad at weithgarwch monitro'r ysgol trwy gyfleoedd rheolaidd, wedi'u cynllunio i wrando ar ddysgwyr. Mae'r corff llywodraethu wedi ennill y wobwr efydd genedlaethol. Fodd bynnag, maent yn dal i fynychu sesiynau hyfforddi perthnasol ac i feithrin eu gallu i gyflawni rôl strategol gref.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu'r gweithlu. Mae rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol yn hynod lwyddiannus o ran gwella cynnydd disgyblion, ymarfer yn yr ystafell ddosbarth ac o ran ymdrin â thanberfformiad.

Byddai'r cynnydd arfaethedig ym maint yr ysgol yn hwyluso arweinyddiaeth wasgaredig yn well ymhlith gweithlu mwy. Byddai hyn yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ac yn lleihau baich cyfrifoldebau staff sy'n aml yn gysylltiedig ag ysgolion â llai na 210 o ddisgyblion.

Targedau ar gyfer Gwella

- Parhau i gryfhau sgiliau ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys Cymraeg
- Parhau i weithredu'r cwricwlwm newydd a'r fframwaith cymhwysedd digidol

Mae'n werth nodi bod y staff a'r gymuned wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth sicrhau bod yr amgylchedd dysgu a'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn datblygu i fod y gorau y gallant fod. Mantais ychwanegol sy'n deillio o'r cynnig hwn yw y byddai angen llai o ymyrraeth gan staff yn yr amgylchedd dysgu gan eu galluogi i ganolbwyntio'n fwy ar gyflawniad ac addysgeg, yn unol â'r targedau a nodir uchod.

Felly mae darparu'r adnoddau a'r technolegau priodol i sicrhau ein bod yn cynorthwyo dysgwyr i gyflawni amcanion y fframwaith yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer adeilad ysgol newydd fel rhan o'r strategaeth ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Effaith y cynnig ar y Gymraeg

Mae Rhaglen y Cyngor ar gyfer Buddsoddi mewn Ysgolion yn adlewyrchu ymrwymadau'r Cyngor yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP), sy'n amcanu at sicrhau y gellir ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir, yn unol â strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chan gyfrannu at ei tharged uchelgeisiol i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Mae nifer o ysgolion cynradd Cymraeg yng Ngorllewin y Fro, gan gynnwys Ysgol Iolo Morgannwg ac Ysgol Dewi Sant.

Er bod Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yn addysgu trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, mae'r safonau uchel a gyflawnir mewn Cymraeg iaith yn cyfrannu at ymrwymiad y

Cyngor i hybu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chlwb Cwtsh i gynnal cyrsiau Cymraeg ar gyfer y gymuned leol.

Effaith y cynnig ar ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig

Mae 17 o ysgolion cynradd yng Ngorllewin y Fro. Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yn un o saith ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru.

Byddai'r cynnig hwn yn cynyddu capasiti'r ysgol o 140 o leoedd i 210 o leoedd gan arwain at 70 o leoedd ychwanegol yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru.

Byddai Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yn cynnal ei chymeriad crefyddol cryf gan ddarparu ar gyfer nifer fwy o ddisgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn croesawu ceisiadau i dderbyn disgyblion o ystod o gefndiroedd. Mae 61% o'r disgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd wedi'u nodi'n Gristnogion.

Tir ac Adeiladau

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg weledigaeth i ddarparu'r cyfleusterau gorau posibl ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Fro i gefnogi eu dysgu.

Mae arolwg o gyflwr adeiladau'n cynnwys asesiad gweledol o bob rhan o'r adeiladau sydd yn y golwg i ganfod diffygion arwyddocaol ac eitemau sydd wedi mynd â'u pen iddynt.

Mae costau cynnal a chadw Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yn £766,590 ar hyn o bryd, y bumed ysgol gynradd yn nhabl y rhai â'r costau cynnal a chadw ôl-gronedig mwyaf yn y Fro.

Ysgol	Math o Ysgol	Cyflwr adeilad yr ysgol	Addasrwydd adeilad yr ysgol	Cost atgyweiriadau a nodwyd
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr	Gwael	Gwael	£766,590

Tabl 7 – Arolwg o Gyflwr Adeiladau 2018

Byddai'r adeilad newydd arfaethedig ar gyfer yr ysgol yn darparu:

- Amgylchedd dysgu o ansawdd da sy'n gyforiog o Dechnoleg Gwybodaeth ar gyfer disgyblion gan ddiwallu anghenion cwricwlwm addysgol yr 21ain Ganrif.
- Mynediad dirwystr rhwng pob ardal fewnol ar gyfer plant a staff gan y byddai'r ysgol newydd wedi'i chynnwys mewn un adeilad.
- Mannau ymneilltuo ar gyfer staff a disgyblion.
- Trefniadau diogelu gwell a diogelwch gwell ar y safle i ddisgyblion a staff.
- Cyfleusterau chwaraeon awyr agored gwell ar gyfer defnydd gan ddisgyblion a'r gymuned.
- Mynediad llawn ar gyfer y gymuned gyfan gyda mynediad gwell ar gyfer pobl anabl.

Sut fyddai'r cynnig yn effeithio ar ysgolion eraill?

Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol gan na chynigir unrhyw newid i drefniadau derbyn.

Sut fyddai'r cynigion yn effeithio ar y ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?

Nid oes canolfan adnoddau arbenigol (CAA) yn sownd yn yr ysgol; mae'n rhoi cymorth arbenigol i blant ag anghenion dynodedig mewn lleoliad cynhwysol o fewn yr ysgol.

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am anghenion disgyblion presennol.

2017		Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	ALI	Cymru
Canran o'r Disgyblion ADY	Gweithredu gan yr Ysgol	8%	8.7%	14.2%
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	5.6%	5.2%	10.4%
	Disgyblion â Datganiad	1.6%	0.4%	2.4%

Tabl 8 - Amlinelliad o ADY ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol yn CYBLD Ionawr 2017

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm pwrpasol ac wedi'i dargedu sy'n ymateb i alluoedd y plentyn unigol ac yn sicrhau bod yr holl blant y mae arnynt angen cymorth ychwanegol yn cael eu hintegreiddio ar draws pob maes o fewn y cwricwlwm.

Beth yw manteision y cynigion hyn?

Byddai ehangu'r ysgol ac adleoli i adeilad ysgol newydd yn;

- Galluogi'r ysgol i wella ymhellach gan ddarparu ar gyfer poblogaeth fwy o ran disgyblion.
- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial ac yn gallu ymateb yn well i newidiadau newydd yn y cwricwlwm.
- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial.
- Byddai'r cynnydd arfaethedig ym maint yr ysgol yn hwyluso arweinyddiaeth wasgaredig yn well ymhlith gweithlu mwy. Byddai hyn yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ac yn lleihau baich cyfrifoldebau staff sy'n aml yn gysylltiedig ag ysgolion â llai na 210 o ddisgyblion.
- Cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy'r defnydd o gyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Darparu amgylcheddau dysgu'r 21ain ganrif, gan ddisodli adeilad ysgol nad yw'n addas i'w ddiben.

- Bydd yr adeilad newydd yn cyrraedd safon “Rhagorol” BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn cael ei adeiladu fel ei fod yn cael A fel sgôr EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni).

Beth yw anfanteision posibl y cynigion hyn?

- Gan fod y safle presennol yn cael ei gynig fel lleoliad ar gyfer yr adeilad newydd, mae potensial y bydd y cam adeiladu'n tarfu ar yr ysgol. Ni fyddai'r ysgol yn gallu defnyddio'r cae chwarae a'r ardal gadwraeth. Byddai'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r tîm adeiladu i sicrhau bod y gwaith yn tarfu gyn lleied â phosibl fel a ddigwyddodd gyda'r datblygiad tai cyfagos. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau cymunedol awyr agored yn y Neuadd Bentref. Rhagwelir y gallai hyn ategu'r ardaloedd ag wyneb caled.

Cynllun pontio os caiff y cynigion eu cymeradwyo

Mae cynigion y Cyngor yn golygu y byddai'r holl ddisgyblion a staff yn symud i safle newydd yr ysgol erbyn mis Medi 2021. Byddai cynllun graddol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer y capasiti uwch gyda'r nifer derbyn yn cynyddu i 30 ar gyfer y disgyblion a fydd yn ymuno â'r dosbarth derbyn yn 2021/22. Ni fyddai'r capasiti'n cyrraedd 210 tan 2028/29.

Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion

Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid yn ôl cyfradd o 85% ar gyfer y cynnig dan Fand B o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Llywodraeth Cymru yn amodol ar gymeradwyo achos busnes.

Dewisiadau eraill a gafodd eu hystyried

Cynnal y sefyllfa bresennol

Nodwyd nad y model hwn yw'r opsiwn a ffeirir am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r problemau cyfredol gydag adeilad Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, y tybir nad yw'n addas i'w ddiben.
- Ni fyddai'r opsiwn hwn yn darparu amgylcheddau dysgu'r 21ain ganrif yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant i ddiwallu anghenion y cwricwlwm newydd.
- Ni fyddai lleoedd ychwanegol yn yr ysgol i dderbyn y disgyblion ychwanegol o ganlyniad i'r datblygiad ger Fferm y Darren, Y Bont-faen.

Cyllid – buddsoddi cyfalaf

Yn amodol ar gymeradwyo'r cynnig hwn, byddai buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn cael ei wneud i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant. Byddai'r Cyngor yn rheoli'r broses a bydd corff llywodraethu, staff, rhieni a disgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o ddatblygu'r cynlluniau. Byddai'r Cyngor yn gyfrifol am reoli'r gwaith adeiladu hefyd.

Amcangyfrifir mai £4.185 miliwn yw cyfanswm y cyllid cyfalaf a fydd yn ofynnol i adeiladu ysgol newydd, gam gynnwys gosod gwasanaethau cyfleustodau a darpariaeth priffyrdd. Disgwylir i'r Cyngor gael £3.557 miliwn mewn cyllid cyfatebol Band B gan Lywodraeth Cymru trwy Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ar gyfer y prosiect hwn. Byddai'r £0.628 miliwn ychwanegol yn cael ei gyllido gan y Cyngor ac mae o fewn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor. Byddai cyllid Adran 106 yn cael ei ddefnyddio o'r datblygiadau tai lleol.

Cyllid – costau rhedeg

Bydd angen cyllid refeniw ychwanegol i gwrdd â chostau gweithredol yr ysgol newydd. Bwriedir cwrdd â'r costau refeniw ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r niferoedd uwch o ddisgyblion trwy'r fformwla cyllido ysgolion sy'n dyrannu'r mwyafrif o gyllid i ysgolion ar sail niferoedd y disgyblion.

Adnoddau Dynol

Ni ragwelir y byddai unrhyw effeithiau anffafriol i staff gan y byddent yn syml yn trosglwyddo i adeilad newydd ar eu contractau presennol. Byddai'r cynnig hwn yn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth yn yr ysgol gan y byddai niferoedd disgyblion ychwanegol yn arwain at dwf mewn lefelau staffio yn y dyfodol. Byddai'r cynnydd arfaethedig ym maint yr ysgol yn hwyluso arweinyddiaeth wasgaredig yn well ymhlith gweithlu mwy. Byddai hyn yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ac yn lleihau baich cyfrifoldebau staff sy'n aml yn gysylltiedig ag ysgolion â llai na 210 o ddisgyblion.

Os bydd y symudiad i safle newydd ar gyfer yr ysgol yn digwydd, bydd angen i'r corff llywodraethu a'r pennaeth ystyried cynnydd yn y strwythur staffio ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion o fis Medi 2021. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r strwythur staffio'n amodol ar ymgynghori'n llawn â staff a'r undebau llafur perthnasol lle y bo angen.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi'r llywodraethwyr, y pennaeth a'r staff yn yr ysgol yn llawn gydag unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth. Mae gan yr ysgol fynediad at bolisiâu a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor, gan gynnwys polisiâu recriwtio. Mae'r gwasanaeth Adnoda Dynol yn cydweithio'n agos gyda llywodraethwyr i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a chlir yn digwydd gyda'r holl gyflogeion ynghylch pob mater sy'n ymwneud â newid yn lleoliad eu gweithle.

Trafnidiaeth

Mae goblygiadau o ran traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu os bydd y cynnig hwn yn cael ei roi ar waith. Byddai hyn yn goleuo dyluniad yr ysgol newydd, gan gynnwys trefniadau gollwng a chasglu teithwyr.

Trefniadau teithio gan ddysgwyr


Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer plant oed meithrin ac eithrio'r plant hynny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Dan y cynigion hyn nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludiant ar gyfer plant i ac o ysgolion.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oed ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf.¹

“Y diffiniad o hyn yw mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Uwchradd. Caiff pellterau eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael.”²

Gan y byddai'r adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar yr un safle â'r ysgol gyfredol ni fyddai'r cynnig yn effeithio ar drefniadau teithio gan ddysgwyr yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant.

Mae'r P121 yn gwasanaethau Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o'r Bont-faen trwy bentrefi lleol ar hyn o bryd. Mae digon o le ar y gwasanaeth hwn i dderbyn niferoedd disgyblion uwch.



Map 1 – Llwybr y Bws ym mis Medi 2018.

Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ymgynghori a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad Ymgynghori.

Ystyried yr effaith ar y gymuned

Yn ôl Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 nid oes gofyniad i gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ar gyfer newid a reoleiddir. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn ymrwymedig i ymgysylltu â'r gymuned leol i ganfod effeithiau posibl a chyn llunio'r ddogfen hon cyfarfu â Chynghorau Cymuned Lleol. Roedd y cyfarfod yn gynhyrchiol iawn gyda'r Cynghorau Cymuned yn dynodi eu hymrwymiad i gefnogi'r broses o'r dechrau i'r diwedd i greu amgylchedd gwell ar gyfer staff, disgyblion, rhieni ac aelodau o'r gymuned leol.

¹Polisi Ar Gyfer Darparu Cludiant O'r Cartref I'r Ysgol (Diwygiwyd ym mis Chwefror 2010)

²Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Er mwyn sicrhau bod aelodau o'r gymuned yn gallu codi cwestiynau yn ystod y broses ymgynghori, mae sesiwn galw heibio gyda'r nos wedi cael ei sefydlu. Cynhelir hon ar 19 Chwefror 2019 rhwng 5pm a 7pm.

Ceir pryder yn y gymuned y byddai'r cynnig hwn yn arwain at fwy o draffig i mewn i'r ardal. Os bydd y corff llywodraethu'n cytuno i fwrw ymlaen â'r cynnig hwn, byddai tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor yn penodi contractwr i gyflawni'r broses adeiladu gan ddefnyddio fframwaith SEWSCAP. Fframwaith adeiladu yw SEWSCAP a ddefnyddir gan 16 o awdurdodau lleol ac sy'n darparu Contractwyr sydd wedi cyn-gymhwyso ac sydd â phrofiad addas i gyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, ac adeiladau cyhoeddus eraill, sy'n gysylltiedig â phrosiectau i godi adeiladau newydd ac adnewyddu adeiladau presennol y mae eu gwerth yn fwy nag £1.5 miliwn. Cyn cyflwyno cais cynllunio, byddai asesiad trafniadaeth llawn yn cael ei gynnal. Hysbysodd y Cyngor Cymuned fod cyfraniad A106 ar gael ar gyfer gwelliannau i'r briffordd a fyddai'n cael eu cynnwys yn nyluniad adeilad newydd yr ysgol.

Byddai achosion o darfu wrth i'r ysgol newydd gael ei hadeiladu'n cael eu rheoli er mwyn tarfu gyn lleied â phosibl ar staff, disgyblion a phreswylwyr lleol. Byddai sianeli cyfathrebu agored rhwng yr ysgol, y Cyngor a'r tîm adeiladu. Byddai camau lliniaru'n cael eu rhoi yn eu lle, megis cyfyngu ar amseroedd danfon deunyddiau.

Un o amcanion allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yw trefnu bod asedau ar gael i'w defnyddio gan y gymuned lle mae galw'n bodoli, i optimeiddio'r seilwaith ac adnoddau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Byddai hyn yn cynnwys manau mewnlol newydd, yn ogystal â chyfleusterau chwaraeon awyr agored.

Tra byddai capasiti'r ysgol yn cynyddu'n raddol byddai manau ychwanegol o fewn yr ysgol newydd a allai gael eu defnyddio gan y gymuned yn ogystal â manau ychwanegol ar gyfer disgyblion.

Y Ffordd at benderfyniad

Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol	
Camau	Disgrifiad
Cam 1: Datblygu cynnig	Bydd cynnig cychwynnol yn cael ei ddatblygu a'i ystyried gan gorff llywodraethu'r ysgol, yn ogystal â'r esgobaeth. Mae Adran 2 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi pryd y mae'n ofynnol dilyn y weithdrefn statudol.
Cam 2: Ymgynghori	Rhaid cyhoeddi dogfen ymgynghori ar wefan yr Ysgol. Rhaid i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a rhaid rhoi o leiaf 42 diwrnod i ymgynghoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Rhaid i randdeiliaid a enwir yn adran 3.4 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) gael eu hysbysu trwy lythyr/e-bost.
Cam 3: Adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad	Bydd adborth a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael ei ystyried a bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r corff

	llywodraethu i gael ei ystyried.
Cam 4: Ystyriaeth gan y Corff Llywodraethu	Bydd y corff llywodraethu yn ystyried yr adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid cyhoeddi'r adroddiad a rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol.
Cam 5: Hysbysiad statudol	Rhaid i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol ac fel a nodir yn adran 4.1 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.
Cam 6: Cyfnod gwrthwynebu	Mae gan unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig y cyfle i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy'r e-bost a chael eu hanfon at y cynigydd cyn diwedd cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad.
Cam 7: Adroddiad gwrthwynebu	Dan adran 49 o Ddeddf 2013 pan fo gwrthwynebiadau wedi dod i law rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebu").
Cam 8: Ystyriaeth	Os oes unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu rhaid atgyfeirio'r cynnig llawn at yr awdurdod lleol ar gyfer penderfyniad.
Cam 9: Llythyr penderfyniad	Bydd cadarnhad o'r penderfyniad ac argaeledd adroddiad gwrthwynebu'n cael ei roi i randdeiliaid.

Dyddiadau allweddol

Bydd adborth o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei goladu a'i grynhoi ac adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r corff llywodraethu. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i bawb ei weld ar wefannau'r ysgol a'r Cyngor. Gellir cael copïau hefyd ar gais trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Mae camau pellach y bydd yn rhaid i'r cynnig fynd drwyddynt cyn y gwneir penderfyniad terfynol. Caiff y camau hyn eu nodi isod:

Y Broses Statudol	Graddfa Amser
Cyhoeddi dogfen ymgynghori	28 Ionawr 2019
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno barn ynglŷn â'r cynigion	15 Mawrth 2019

Adroddiad ymgynghori'n cael ei ystyried gan y corff llywodraethu a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol	Ebrill 2019
Yn amodol ar gymeradwyaeth, cyhoeddi hysbysiad statudol gan wahodd gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol yn ystod y cyfnod hwnnw	Ebrill 2019 – Mai 2019
Diwedd Cyfnod yr Hysbysiad Statudol	Mai 2019
Penderfyniad gydag adroddiad gwrthwynebu.	Gorffennaf 2019
Hysbysu ynghylch y penderfyniad	Gorffennaf 2019
Gweithredu'r cynnig	O fis Medi 2021

Tabl 9 - Amserlen ar gyfer ymgynghori

Gallai'r amserlen arfaethedig newid

Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau ar ddydd Llun 28 Ionawr 2019 ac yn dod i ben ar ddydd Gwener 15 Mawrth 2019. Gweler tudalen 7 am fanylion pellach sy'n egluro sut i ymateb a rhoi eich barn.

Hysbysiad statudol

Byddai'r hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol a'r Cyngor a'i osod ym mhrif fynedfa Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant. Byddai copïau o'r hysbysiad yn cael eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid, ac aelodau o staff. Byddai'r hysbysiad yn nodi manylion y cynigion ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny yn ysgrifenedig o fewn y cyfnod penodedig.

Penderfynu ynghylch y cynigion

Os cafwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu rhaid atgyfeirio'r cynnig llawn at yr awdurdod lleol ar gyfer penderfyniad.

Hysbysu ynghylch y penderfyniad

Yn dilyn penderfynu ynghylch y cynigion bydd yr holl bartïon â buddiant yn cael eu hysbysu ynghylch y penderfyniad a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan yr ysgol ac ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

Pryd fyddai staff a disgyblion yn trosglwyddo i adeilad newydd yr ysgol?

Y cynnig yw y byddai'r ysgol newydd yn agor erbyn mis Medi 2021

Beth yw'r raddfa amser fwriadedig ar gyfer datblygu adeilad newydd yr ysgol?

Er mwyn cyflawni'r graddfeydd amser uchod, mae gwaith adeiladu'n debygol o ddechrau o fis Gorffennaf 2020. Byddai contractwyr yn cael eu penodi cyn hyn i ddatblygu'r dyluniad a chynllunio. Byddai cais cynllunio llawn yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr adeilad newydd.

Sut fyddai'r broses o symud adnoddau i mewn i adeilad newydd yr ysgol yn cael ei rheoli?

Byddai tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor yn rheoli'r broses o symud adnoddau i mewn i'r adeilad newydd. Mae prosiectau blaenorol wedi defnyddio diwrnodau HMS y naill ochr a'r llall i benwythnos neu wyliau ysgol i roi digon o amser i staff sefydlu'r amgylchedd yn barod ar gyfer dysgu ac addysgu.

Sut fyddai goblygiadau posibl ar gyfer trafndiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynnig hwn?

Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor fyddai'n gyfrifol am y broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi a byddai asesiad trafndiaeth llawn yn cael ei gwblhau fel rhan o'r broses ddylunio. Byddai unrhyw oblygiadau a nodir yn cael eu cynnwys wrth ddylunio'r adeilad newydd. Byddai'r contractwr yn cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer yr adeilad newydd.

Pwy fyddai'n rheoli'r broses o adeiladu adeilad newydd yr ysgol?

Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor fyddai'n gyfrifol am reoli'r broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi gan ddefnyddio fframwaith SEWSCAP. Fframwaith adeiladu yw SEWSCAP a ddefnyddir gan 16 o awdurdodau lleol ac sy'n darparu Contractwyr sydd wedi cyn-gymhwyso ac sydd â phrofiad addas i gyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, ac adeiladau cyhoeddus eraill, sy'n gysylltiedig â phrosiectau i godi adeiladau newydd ac adnewyddu adeiladau presennol y mae eu gwerth yn fwy nag £1.5 miliwn. Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei llunio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu ynghylch y cynnydd ac yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Byddai cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, y contractwr a'r ysgol.

A fyddai adeiladu'r ysgol newydd yn tarfu ar staff, disgyblion a phreswylwyr lleol?

Cynigir y bydd adeilad newydd yr ysgol yn cael ei godi ar y safle presennol a fyddai'n golygu y terfir rywfaint ar staff, disgyblion a phreswylwyr lleol yn ystod y cam adeiladu. Byddai'r ysgol yn cydweithio'n agos â Thîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor i sicrhau y terfir gyn lleied â phosibl trwy gyfyngu ar amseroedd danfon deunyddiau a chydweithio â rheolwr y safle. Mabwysiadwyd dull tebyg trwy gydol y broses o adeiladu datblygiad St David's Meadow, sydd wedi'i leoli'n agos at yr ysgol, yn ddiweddar.

A fyddai trefniadau wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y broses o adeiladu'r ysgol newydd i sicrhau bod disgyblion yn gallu defnyddio manau awyr agored?

Gan y byddai'r adeilad newydd arfaethedig yn cael ei godi ar y safle presennol, byddai'r ysgol yn colli manau awyr agored yn ystod y cam adeiladu. Yn ystod yr amser hwn, byddai'r ysgol yn cydweithio'n agos â thîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif i sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad at ddigon o fannau awyr agored ac nad yw'r cwricwlwm yn cael ei beryglu. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau chwarae cymunedol cyfagos ar gyfer chwaraeon a byddai hynny'n parhau trwy gydol y cam adeiladu.

Byddai'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r tîm adeiladu i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys trwy gydol y broses a bod y cwricwlwm yn cael ei wella trwy ymweliadau rheolaidd â'r safle.

Sut fyddwn ni'n cael ein cynnwys trwy gydol y broses ddylunio?

Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei llunio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu ynghylch cynnydd ac yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Byddai cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, y contractwr a'r ysgol. Gellir anfon unrhyw adborth neu feddyliau at Dîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn: 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Ar y cynnig i ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 o leoedd i 210 o leoedd i ateb y galw yn y dyfodol am addysg yr Eglwys yng Nghymru.

Mae eich barn chi'n bwysig. Dywedwch wrthym beth ydych yn ei feddwl am y cynnigion trwy:

- gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn <https://www.snapsurveys.com/wh/s.asp?k=154765165305>

neu

- ateb y cwestiynau ymgynghori ac ychwanegu eich safbwyntiau ar y ffurflen hon

Dychwelwch y ffurflen i'r cyfeiriad post ar waelod y ffurflen.

Sylwer y dylai'r holl sylwadau gynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn y sawl sy'n gwneud y sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw dydd Gwener 15 Mawrth 2019. Yn anffodus ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnigion, er y byddant yn cael eu hystyried gan y corff llywodraethu wrth iddo wneud ei benderfyniad.

Dim ond yn dilyn cyhoeddi **hysbysiad statudol** y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

Gellir gofyn am weld unrhyw ymatebion a ddaeth i law dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd yn rhaid eu cyhoeddi. Fodd bynnag, byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n datgelu pwy yw unigolyn megis enw, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post yn cael ei thynnu allan.

Eich Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Cyfeiriad E-bost:

Dyddiad:

Dywedwch wrthym ym mha gymhwyster yr ydych yn ymateb:

- | | | | |
|------------------|--------------------------|----------------------------|--------------------------|
| 1. Rhiant | <input type="checkbox"/> | 5. Preswlydd Lleol | <input type="checkbox"/> |
| 2. Disgybl | <input type="checkbox"/> | 6. Arall (rhowch fanylion) | <input type="checkbox"/> |
| 3. Llywodraethwr | <input type="checkbox"/> | | |
| 4. Aelod o Staff | <input type="checkbox"/> | | |

Ar y cynnig i ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 o leoedd i 210 o leoedd i ateb y galw yn y dyfodol am addysg yr Eglwys yng Nghymru.

Cwestiynau

1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 o leoedd i 210 o leoedd i ateb y galw yn y dyfodol am addysg yr Eglwys yng Nghymru?

Ydw

Nac ydw

Os ydych neu os nad ydych yn cefnogi'r cynnig yna eglurwch pam os gwelwch yn dda.

2. Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynnig, nodwch y rhain isod.

Unrhyw sylwadau eraill?

Diolch am eich sylwadau

Ticiwch y blwch isod os ydych yn dymuno cael eich hysbysu pan gyhoeddir yr adroddiad ymgynghori

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant
Tregolwyn
Y Bont-faen
Bro Morgannwg
CF71 7NL

Dychwelwch y ffurflen hon i'r ysgol fan bellaf erbyn 15 Mawrth 2019 os gwelwch yn dda

Nodiadau ar y Ddogfen Ymgynghori